The Open University
Y Brifysgol Agored

a Welsh asset, a Welsh resource
ased Gymreig, adnodd Gymreig

Open University in Wales *News Bulletin*

(mae'r bwletin hon yn ddwyieithog, mae'r fersiwn Cymraeg isod) Issue number 8

August/September 2009 – For more information on any of the news and events in this bulletin please contact Dewi Knight on d.n.knight@open.ac.uk or 029 20 262 708

The OUiW News Bulletin is an accessible guide to forthcoming events organised by, or involving, the University, developments in part-time HE in Wales and news on courses and staff at the University.

The bulletin is a snapshot of activity and news designed to be of interest to journalists, those in the education, public, private and third sectors and students.

TOP MARKS FOR STUDENT SATISFACTION

The Open University in Wales is the top university in Wales for student satisfaction. 91% of students said they were satisfied overall with the quality of their course according to the latest National Student Survey. A total of 155 higher education institutions (HEIs) across the UK and all 12 Welsh HEIs took part in the Survey. As the UK's largest University and provider of part-time education, The Open University has been at the forefront of the ratings since they were introduced in 2005, topping the poll in Wales in each of the five years the NSS has run.

BANKING ON NEW FINANCIAL SKILLS

From this November, Neath Port Talbot College will be offering the OU's new Foundation Degree (FD) in Financial Services, the first UK college to do so. The FD has been designed by the OU, alongside other courses, to meet the vocational training needed by the financial industry. These courses will help the industry adapt and improve its workforce skills, strengthening its response to the recession and beyond.

DIGITALLY INCLUDED

The recently released Digital Inclusion in Wales report from the Welsh Affairs Committee contains many references to evidence provided by the OU in Wales. The report calls for the Welsh government to "articulate specifically" the role for the higher education sector in its plans for digital inclusion in Wales. The OU in Wales looks forward to working with government and other stakeholders to take this, and other measures, forward.

2+2 = FLEXIBLE STUDY

The OU in Wales and Bangor University have developed an innovative degree plan that allows students to mix distance and campus learning. The "2plus2" scheme, in BSc Chemistry, gives the student the opportunity of part-time study with the OU for two years and a guaranteed place then at Bangor to complete their second and third year. The scheme is aimed at those students who may be worried about the initial cost of university, have an interest in science but never thought they'd be able to access HE and those who wish to start a degree but combine it with work.

RISE IN NUMBER OF SPONSORED STUDENTS

A recent update has revealed that the OU in Wales has passed the 1,000 mark for employer-sponsored students. Over 300 employers now sponsor OU in Wales students, right across the nation.

OU IN THE NORTH WEST & CARDIFF

The OU in Wales is working with Communities First teams in Gwynedd and from September will be running local study clubs in Peblig, Talysarn and Barmouth. The study clubs will support students who are taking their first steps in distance learning on our Openings courses. For more information contact g.hudson@open.ac.uk The OUiW will also be hosting workshops in Cardiff during September, at the Central Library (3rd Floor) on the 11th (11am – 3pm) and in Mermaid Quay in the Cardiff Learning Festival Marquee on the 12th (11am – 3pm).

OPEN UNIVERSITY SEES SURGE IN YOUNGER STUDENTS

The Open University across the UK is reporting a 36% increase in course registrations amongst 18 to 21 year olds, compared to August 2008.

KNOW YOUR WALES

If you took part in the Know Your Wales quizzes courtesy of the OU at the National Eisteddfod, visit www.openuniversity.co.uk/knowyourwales for the answers, or to try the quizzes again. You will also find links to the OU courses, *Croeso: beginners' Welsh* and *Small country, big history: themes in the history of Wales* at the website.

NEW OPENLEARN STUDY UNIT

A new study unit of Welsh interest is now available on OpenLearn. Taken from the OU course *Heritage, whose heritage?* it looks at Aberdulais Falls near Neath. This is a place of great natural beauty, but also an important industrial heritage site. In this case study, the heritage debates around what to do with places, buildings, things and the memories attached to them in the context of a specific Welsh heritage site is examined. Since launch in 2006 OpenLearn, which gives free access to OU course materials, has been visited by over 5 million unique visitors.

Bwletin Newyddion Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Rhifyn 8

Awst/Medi 2009 – I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r straeon newyddion a'r digwyddiadau yn y bwletin hwn cysylltwch â Dewi Knight ar d.n.knight@open.ac.uk neu drwy ffonio 029 20 262 708

Mae'r Bwletin newyddion yng nghanllaw hygyrch i ddigwyddiadau i ddod a drefnir gan y Brifysgol neu sy'n gysylltiedig â hi, datblygiadau mewn AU rhan-amser yng Nghymru a newyddion am gyrsiau a staff yn y Brifysgol.

Mae'r bwletin yn gipolwg ar weithgareddau a newyddion a allai fod o ddiddordeb i newyddiadurwyr, a'r rhai sydd yn y sectorau addysg, cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector a myfyrwyr.

MARCIAU LLAWN AR GYFER BODDHAD MYFYRWYR

Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r brifysgol orau yng Nghymru ar gyfer boddhad myfyrwyr. Dywedodd 91% o fyfyrwyr eu bod yn hapus yn gyffredinol ag ansawdd eu cwrs yn ôl yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol diweddaraf. Roedd cyfanswm o 155 o sefydliadau addysg uwch ledled y DU a phob un o'r deuddeg o sefydliadau yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr Arolwg. Fel Prifysgol a darparwr addysg rhan amser mwyaf y DU, mae'r Brifysgol Agored wedi bod ar y blaen gyda'r cyfraddau ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2005, gan ddod i'r brig yn yr arolwg yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol wedi'i gynnal.

BANCIO AR SGILIAU ARIANNOL NEWYDD

O'r mis Tachwedd hwn, bydd Coleg Castell-nedd Port Talbot yn cynnig Gradd Sylfaen newydd y Brifysgol Agored mewn Gwasanaethau Ariannol, y coleg cyntaf yn y DU i wneud hynny. Mae'r Radd Sylfaen wedi'i chynllunio gan y Brifysgol Agored, ochr yn ochr â chyrsiau eraill, i fodloni'r hyfforddiant galwedigaethol sydd ei angen ar y diwydiant ariannol. Bydd y cyrsiau hyn yn helpu'r diwydiant i addasu a gwella sgiliau ei weithlu, gan gryfhau ei ymateb i'r dirwasgiad a thu hwnt.

CYNNWYS DIGIDOL

Mae'r adroddiad Cynhwysiant Digidol yng Nghymru a ryddhawyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn cynnwys llawer o gyfeiriadau at dystiolaeth a ddarperir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn galw ar lywodraeth Cymru i "egluro'n benodol" y rôl ar gyfer y sector addysg uwch yn ei gynlluniau ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r mesur hwn, a rhai eraill.

2+2 = ASTUDIO HYBLYG

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru a Phrifysgol Bangor wedi datblygu cynllun gradd arloesol sy'n caniatáu i fyfyrwyr gymysgu dysgu o bell a dysgu ar y campws. Mae'r cynllun "2plus2", mewn BSc Cemeg, yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr astudio'n rhan amser gyda'r Brifysgol Agored am ddwy flynedd ac yna lle gwarantedig ym Mangor i gwblhau eu hail a'u trydedd flwyddyn. Anelir y cynllun at y myfyrwyr hynny a allai fod yn poeni am gost cychwynnol prifysgol, sydd â diddordeb mewn gwyddoniaeth ond erioed wedi meddwl y byddent yn gallu cael mynediad i addysg uwch a'r rhai hynny sydd am ddechrau gradd ond ei gyfuno â gwaith.

CYNNYDD YN NIFER Y MYFYRWYR A NODDIR

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf wedi datgelu fod gan y Brifysgol Agored yng Nghymru dros 1,000 o fyfyrwyr a noddir gan gyflogwyr. Bellach mae dros 300 o gyflogwyr yn noddi myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru, ym mhob cwr o'r wlad.

Y BRIFYSGOL YNG NGOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU A CHAERDYDD

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn gweithio gyda'r timau Cymunedau yn Gyntaf yng Ngwynedd ac o fis Medi byddant yn cynnal clybiau astudio lleol ym Mheblig, Talysarn ac Abermo. Bydd y clybiau astudio yn cefnogi myfyrwyr sy'n cymryd eu camau cyntaf mewn dysgu o bell ar ein cyrsiau Cychwyn. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â g.hudson@open.ac.uk Bydd yr OUiW hefyd yn cynnal gweithdai yng Nghaerdydd

yn ystod mis Medi, yn y Llyfrgell Ganolog (3ydd Llawr) ar y 11eg (11am - 3pm) ac yn Mermaid Quay ym Mhabell Fawr Gŵyl Ddysgu Caerdydd ar y 12fed (11am - 3pm).

Y BRIFYSGOL AGORED YN GWELD CYNNYDD MEWN MYFYRWYR IAU

Mae'r Brifysgol Agored ledled y DU yn cofnodi cynnydd o 36% mewn cofrestriadau ar gyfer cyrsiau ymhlith pobl ifanc rhwng 18 a 21 oed, o gymharu â mis Awst 2008.

ADNABOD CYMRU

Os gwnaethoch gymryd rhan yn y cwisiau Beth Wyddoch Chi am Gymru gan y Brifysgol Agored yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ewch i http://www.open.ac.uk/cam/abnabodcymru/ i gael yr atebion, neu i roi cynnig arall ar y cwisiau. Byddwch hefyd yn dod o hyd i ddolenni i gyrsiau'r Brifysgol Agored, *Croeso: Cymraeg i ddysgwyr* a *Gwlad fach, hanes mawr: themâu yn hanes Cymru* ar y wefan.

UNED ASTUDIO NEWYDD OPENLEARN

Mae uned astudio newydd â diddordeb Cymreig bellach ar gael ar OpenLearn. Wedi'i chymryd o gwrs *Heritage, whose heritage?* y Brifysgol Agored, mae'n edrych ar Raeadr Aberdulais ger Castell-nedd. Mae'n fan o harddwch naturiol gwych, ond hefyd yn safle treftadaeth diwydiannol pwysig. Yn yr astudiaeth achos hon, mae'r dreftadaeth yn trafod beth i'w wneud â'r lleoedd, yr adeiladau, y pethau a'r atgofion sydd ynghlwm wrthynt yng nghyd-destun safle treftadaeth penodol Cymru. Ers ei lansio yn 2006, mae mwy na pum miliwn wedi ymweld ag OpenLearn, sy'n rhoi mynediad am ddim i ddeunyddiau cwrs y Brifysgol Agored.

Contact/Cyswllt:

Dewi Knight d.n.knight@open.ac.uk 029 20 262 708 - 07919915868

About the OU in Wales - Ynghylch y Brifysgol Agored yng Nghymru:

- *Yn ôl canlyniadau diweddaraf Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2009, mae myfyrwyr y Brifysgol Agored, am y pumed flwyddyn yn olynol, yn fwy bodlon ar ansawdd eu haddysg uwch na myfyrwyr mewn unrhyw brifysgol arall yng Nghymru.*

- *Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r unig Sefydliad Addysg Uwch 'Cymru gyfan', ac mae'n cofrestru bron 7,000 o fyfyrwyr o bron bob cymuned ledled y wlad. Ariennir y Brifysgol bellach gan CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru), ac mae wedi rhoi cyfle i bobl ledled y wlad astudio mewn prifysgol yn rhan-amser am 40 mlynedd.*

- *For the fifth successive year, students at The Open University are more satisfied with the quality of their higher education than those at any other university in Wales, according to the National Student Survey 2009.*

- *Enrolling almost 7,000 students from virtually every community across the nation, the Open University in Wales is the only 'all Wales' Higher Education Institution. Now funded through HEFCW (The Higher Education Funding Council for Wales), the Open University in Wales has provided part-time university study throughout the nation for 40 years.*